

# Astudiaeth Achos: Darllenwr proflenni - Katie

## Beth ydych chi'n ei wneud?

Rwy'n gwirio llawysgrifau a dogfennau gan rhoi sylw i gamgymeriadau sillafu, camgymeriadau gramadegol, arddull, cysondeb a diwyg. Rwy'n defnyddio amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys cyfrifiadur, ebost, y rhyngwrwyd, geiriaduron a thesawrws.



## Beth yw'ch cefndir?

Ar ôl gorffen fy arholiadau Safon Uwch astudiais am radd mewn Ffrangeg ac Eidaleg, a oedd yn cynnwys modiwlau mewn ieitheg a seineg. Rwyf wedi mwynhau ieithoedd erioed, ac roeddwn yn gweld bod Lladin yn arbennig o ddefnyddiol. Ar ôl gadael y brifysgol dilynais gwrs trwy'r post lle datblygais fy sgiliau prawf-ddarllen a golygu. Rwyf wedi bod yn gwneud gwaith golygu byth ers hynny.

## Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cael y gallu i ganolbwyntio am gyfnodau hir. Mae angen i chi allu gweithio'n gywir a chael amynedd, stamina a sgiliau cyfathrebu da er mwyn trafod â'r cwsmer. Er mwyn gallu parhau i'ch cymell eich hun mae'n hanfodol bod gennych ddiddordeb mewn ieithoedd ac ymrwymiad i sicrhau perffeithrwydd.

## Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Byddai'r sgiliau rwy'n eu defnyddio'n gallu cael eu trosglwyddo i bob gyrfa ym myd cyhoeddi a'r cyfryngau. Mae rhai darllenwyr proflenni'n cyfuno eu sgiliau â sgiliau golygydd, er enghraifft mewn cwmni cyhoeddi neu ym maes newyddiaduraeth.

## Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Rwy'n credu bod datblygiad y rhyngwrwyd, yn enwedig gwaith golygu ar-lein ar gyfer y we, wedi golygu bod mwy o wybodaeth yn cael ei chynhyrchu. Felly, bydd angen darllenwyr proflenni, yn enwedig y rhai sy'n hyddysg wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur a'r rhyngwrwyd.

Yn y dyfodol, rwy'n credu y bydd darllenwyr proflenni'n gorfod bod yn hyblyg o ran prawf-ddarllen dogfennau ar-lein ac ar ddisg, yn ogystal â gwneud y gwaith mwy traddodiadol o farcio papurau.

## Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Yn fy swydd i, mae'n siwr mai'r peth gwaethaf yw gweithio i derfynau amser, a gorfod canolbwyntio ar ddeunydd sy'n gallu bod yn eithaf diflas weithiau. Mae'n gallu bod yn waith eithaf unig ac mae angen cryn dipyn o ymrwymiad a'r gallu, ar brydiau, i gau'r drws ar bawb a phopeth.

## Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae'n gallu bod yn anodd dechrau yn y maes oni bai eich bod chi wedi ymrwymo'n llwyr. Gallwch gael gwaith contract, gallwch wneud gwaith llawrydd, neu gallwch weithio i gwmni o gyhoeddwr.

## Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Rwy'n mwynhau 'gloywi' dogfen - adnabod y camgymeriadau sillafu a gramadegol a chreu dogfen gyflawn allan o ddogfen sydd â chamgymeriadau ynddi.

Mae gwneud ymchwil am yr erthygl drwy wneud galwadau ffôn ac anfon negeseuon ebost fel y bo angen a defnyddio adnoddau megis y rhyngwrwyd a geiriaduron yn rhoi boddhad i mi.

Yn anad dim, rwy'n mwynhau bod yn feistr ar fy ngwaith a chynnig gwasanaeth a sgil arbenigol.

## Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Mae gweithio i derfynau amser yn gallu bod yn her, ac mae'n gallu cymryd amser, a does dim dal a fydd y pwnc dan sylw yn ddiddorol ac yn gyffrous.

## Beth yw'ch uchelgeisiau?

Fy uchelgeisiau yw cynyddu nifer y cleientiaid sydd gen i, gan ddefnyddio fy sgiliau Ffrangeg ac Eidaleg efallai, a gwneud ychydig o waith golygu yn yr ieithoedd hynny.

## Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Mae'n bwysig iawn bod gennych gefndir cyffredinol da a diddordeb yn y ffordd y mae iaith yn gweithio. Yn groes i'r hyn y mae pobl yn ei gredu, nid yw'n hanfodol eich bod chi'n mwynhau llyfrau oherwydd mae gan ddarllenwr proflenni fwy o ddiddordeb mewn mecaneg iaith. Fodd bynnag, mae darllen llawer yn fonws ac mae cyfleoedd ar gael i arbenigo mewn meysydd penodol, er enghraifft meddygaeth a bioleg.

Mae'n gallu bod yn waith unig, felly mae'n bwysig eich bod chi'n mwynhau gweithio ar eich pen eich hun a heb oruchwyliaeth.

Ac os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith llawrydd, bydd pen busnes yn ddefnyddiol iawn.

## Diwrnod ym mywyd

9:00 yb - 10:00 yb

Edrych ar y dasg brawf-ddarllen am y tro cyntaf - tynnu sylw at gamgymeriadau gramadeg a sillafu difrifol, llunio rhestr wirio o bwyntiau i'w hystyried o ran arddull a diwyg, gan gynnwys unrhyw ofynion a chanllawiau penodol a roddwyd gan yr awdur.

10:00 yb - 10:15 yb

Egwyl - darllen negeseuon ebost a gwranddo ar unrhyw negeseuon ar y peiriant ateb.

10:15 yb - 12:15 yb

Prawf-ddarllen dogfen, gwirio sillafu, gramadeg, atalnodi, arddull a chysondeb.

12:15 yb - 1:15 yb

Cael cinio a mynd am dro er mwyn cael ychydig o awyr iach a rhoi hoe i fy llygaid.

1:15 yb - 3:15 yb

Parhau i brawf-ddarllen.

3:15 yb - 3:45 yb

Egwyl - darllen negeseuon ebost a gwranddo ar unrhyw negeseuon ar y peiriant ateb. Ymateb os oes angen.

3:45 yb - 5:30 yb

Mwy o waith prawf-ddarllen. Cysylltu â'r awdur i wneud rhai ymholiadau a rhoi adborth ynghylch sut mae'r gwaith yn dod yn ei flaen. Cynllunio gwaith ar gyfer y diwrnod wedyn.